Hwre I'n Hochor Ni

Hwre i'n hochor ni
Ma'r band 'nol ar yr hewl
Hwre i'n hochor ni
Ma' pethe'n mynd yn o lew
Hwre fe ddaeth y dydd
Ma' popeth 'n mynd i fod yn iawn
A thrwy'r haf cawn dywydd braf
A heulwen ble bynnag yr awn.

Hwre i'n hochor ni
Mae'r tîm 'nol ar y brig
Hwre i'n hochor ni
Caiff pob un gwlych'i big
Hwre fe ddaeth yr awr
Ma' pethe ar 'u lan
Dwy'n gweld o bell y dyddiau gwell
Fydd yma yn y man.

Hwre i'n hochor ni
Mae'r capten wrth y lliw
Hwre i'n hochor ni
Daeth ateb wrth Seren Syw
Hwre i ti a fi
Hwre i'r bach a'r mawr
Ma' pawb yn iach yn yr hen wlad fach
Mae'n nefoedd ar y llawr.

Hwre i'n hochor ni
Mae'n neis fod ar y bla'n
Hwre i'n hochor ni
Dyma yw ein can.

© Geraint Griffiths 2005